**Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr**
**21 Medi 2022**
**Nodiadau'r cyfarfod**

**Yn bresennol:**
Cyngh. Di Clement (Aelod o'r Bwrdd a'r Cadeirydd)
Dr Rachel Heath-Davies (Aelod o'r Bwrdd a Dirprwy Gadeirydd)
Cyngh. Stephen Alderman (Aelod o'r Bwrdd)
Tegryn Jones (Prif Weithredwr)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

**Datgan buddiannau**

2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**Cofnodion y cyfarfod**

3. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 yn gofnod cywir.

**Nodiadau ar yr adolygu perfformiad**

4. Cyflwynodd y Prif Weithredwr uchafbwyntiau ei adroddiad ar adolygu perfformiad, gan gymryd pob un o'r amcanion yn eu tro.

5. Trafodwyd yn fanwl yr amcan cyntaf - Sicrhau bod adnoddau ariannol yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys yr ail amcan o gyflwyno'r strwythur newydd a'r cyflogau a graddfeydd.

6. Yn seiliedig ar waith modelu, eglurodd y Prif Weithredwr ei bod yn debygol y bydd diffyg o £600,000 yn y gyllideb yn 2023-24 a £900,000 yn 2024-25. O ystyried y costau o ailstrwythuro'r Awdurdod ynghyd â'r costau ychwanegol o redeg y busnes, byddai gan yr Awdurdod, pe bai'n defnyddio ei gronfeydd wrth gefn, 2 flynedd i weithredu/datrys y sefyllfa.

7. Eglurwyd bod y cynllun i ddatrys y diffyg ariannol fel a ganlyn: cynhyrchu incwm, adnewyddu'r dull cyllidebu, rhoi'r gorau i wneud rhai pethau, buddsoddi i arbed, a mwy o weithio mewn partneriaeth. O ran cynhyrchu incwm, awgrym y Prif Weithredwr oedd cynhyrchu incwm drwy'r taliadau am barcio ceir a'r taliadau a godir am gyflwyno ceisiadau cynllunio, ond hefyd trafodwyd ffyrdd mwy arloesol gan gynnwys ardollau a grantiau a masnacheiddio. Holodd y panel am ddulliau eraill o bennu cyllideb a gwariant, a thrafodwyd y cyfle i ailedrych ar linellau'r gyllideb fel y maent ar hyn o bryd. Roedd yr hinsawdd presennol yn gyfle i ddechrau o'r newydd. Eglurodd y Prif Weithredwr nid yn unig bod angen i gyllidebau fod yn fwy realistig ond hefyd eu bod yn seiliedig ar y gweithgareddau a gynllunnir ar gyfer y flwyddyn i ddod ac nid yn seiliedig ar wariant hanesyddol. Bu'r panel hefyd yn trafod cyfleoedd i chwilio am arbedion effeithlonrwydd ar

draws yr adrannau a llinellau'r gyllideb yn hytrach nag aros gyda'r un cyllidebau â'r rhai cyfredol.

8. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n gwerthfawrogi mwy o arweiniad gan yr Aelodau ar gynhyrchu incwm a masnacheiddio.
**GWEITHREDU – Gweithdy i'r Aelodau i'w drefnu i drafod cynhyrchu incwm a'r awydd am fwy o weithgareddau masnachol.**

**9.** Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar yr ailstrwythuro a'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y broses wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd ac y byddai'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd bellach wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2023. Mynegodd y panel bryder hefyd ynghylch y cynllunio a'r rhagolygon ynghylch cost y strwythur newydd ac nad oedd yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd heb eto ei gwblhau. Gall oedi fel hyn effeithio ar forâl y staff a gofynnwyd i'r Prif Weithredwr sicrhau bod yr ymarfer hwn yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl. Nid oedd yr Aelodau yn ymwybodol o'r proffil gwariant yn y dyfodol a dim ond adroddiadau llafar oedd ganddynt hyd yn hyn y byddai'r strwythur yn defnyddio cronfeydd wrth gefn am rhyw 5 mlynedd. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yng nghyflogau staff a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r argyfwng costau byw, amcangyfrifwyd bellach y byddai'r arian wrth gefn yn dod i ben mewn cyn lleied â 2 flynedd. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y sefyllfa yn parhau'n ansicr ac mai anodd yw cynllunio ar un senario. Gofynnodd y panel i'r Prif Weithredwr ddarparu proffiliau ariannol ar gyfer amrywiaeth o senarios, fel bod yr Aelodau yn cael eu briffio'n llawn ar gynlluniau gwariant y Prif Weithredwyr, gan gynnwys y defnydd o gronfeydd wrth gefn a grantiau.
**GWEITHREDU: Prif Weithredwr i drefnu gweithdy cyllidebu fis Hydref i drafod senarios cynllunio ariannol a darparu proffil am y 5 mlynedd nesaf i'r Aelodau.**

**GWEITHREDU: Yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf.**

**10.** Trafodwyd cefnogi iechyd a lles y staff. Ailfynegodd y panel pa mor bwysig yw cwblhau'r ailstrwythuro a'r adolygiad cyflogau a graddfeydd. Roedd yn adeg arbennig o gythryblus ac ansefydlog i'r staff ar hyn o bryd gan gynnwys marwolaeth y Frenhines a'r rhyfel yn yr Wcráin yn ogystal â'r argyfwng costau byw. Holodd aelod o'r panel hefyd am y gyfradd is nag arfer o ymateb i'r arolwg staff. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn bod morâl yn isel a'i fod wedi'i synnu gan rai o ymatebion y staff i'r ailstrwythuro. Roedd rhai swyddi wedi aros yr un fath ers sawl degawd ac felly roedd yr ailstrwythuro yn sioc ddiwylliannol.

11. Gofynnodd y panel am y pwysau ar yr adran adnoddau dynol ar hyn o bryd gan yr ymddengys bod llawer o waith i'w wneud megis strategaeth AD, adolygiad o'r holl bolisïau, a materion Iechyd a diogelwch. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod y pwysau hyn. Cytunwyd bod blaenoriaethu'r adolygiad cyflogau a graddfeydd a llenwi'r ddwy swydd wag allweddol yn y strwythur newydd yn briodol, ac os oedd angen, i ddad-flaenoriaethu ymgeisio am y Safon Iechyd Corfforaethol ar hyn o bryd.

**Targedau perfformiad**

12. Trafodwyd yr amcanion perfformiad a'r diwygiadau oedd angen eu gwneud. Targedau'r Prif Weithredwr am y chwarter nesaf yw fel a ganlyn:

i. Datblygu cynlluniau i gwrdd â'r heriau ariannol tymor byr, canolig a hir, gyda'r nod o ymdrin â'r diffyg a ragwelir dros y tair blynedd nesaf. Wrth wneud hyn, cynnwys yr Aelodau yn y broses, codi uchelgais y staff, adeiladu effeithlonrwydd a chydnerthedd drwy ffyrdd newydd o weithio a chwilio am gyfleoedd ac arloesedd drwy ffynonellau newydd o gyllido;

ii. Cwblhau'r adolygiad corfforaethol, gan ganolbwyntio ar newidiadau i strwythur yr Awdurdod a chynnal Adolygiad o Gyflogau a Graddfeydd, gyda'r nod o sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni;

iii. Adeiladu ar y gwaith presennol i ddatblygu a gweithredu mentrau ar dir ac o fewn yr ardal forol i alluogi'r Awdurdod i gynyddu ei effaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac adfer byd natur;

iv. Cefnogi iechyd, lles a morâl y staff, tra'n sicrhau bod y gwaith yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Awdurdod. Wrth wneud hyn, gwreiddio'r arfer da dros y ddwy flynedd ddiwethaf drwy ffurfioli'r trefniadau gweithio oriau hyblyg, a dychwelyd i weithio yn y swyddfa yn Llanion. Y gwaith i gyrraedd Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru;

v. Gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i barhau i godi proffil yr Awdurdod ac i ddylanwadu ar bolisïau ar draws y meysydd blaenoriaeth a amlinellir ym mlaenoriaethau'r Awdurdod; a

vi. Pharhau i gefnogi Aelodau newydd i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi gan drefniadau effeithiol o sefydlu yn y rôl.